***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3187

## Rheoliadau Diwygio'r Drefn Brydlesol (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2002

**Enwi, cychwyn a hyd a lled**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio'r Drefn Brydlesol (Hysbysiadau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ionawr 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Diwygiadau**

**2.** Yn yr Atodlen i Reoliadau Diwygio'r Drefn Brydlesol (Hysbysiadau) 1997(**1**)—

(a) yn lle Ffurflen 1, rhoddir y Ffurflen 1 sydd yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn; a

(b) yn lle Ffurflen 2, rhoddir y Ffurlfen 2 sydd yn yr Atodlen honNo.

**Cymhwyso**

**3.** Dim ond ar gyfer achosion pan fo hysbysiad o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio'r Drefn Brydlesol 1967(**2**) (hysbysiad o awydd y tenant i gael neu honiad bod ganddo hawl i gaffael y rhydd-ddeiliad neu brydles estynedig) wedi'i roi ar neu ar ôl y dyddiad pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym y bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
18 Rhagfyr 2002 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) O.S. 1997/640.
(**2**) 1967 p.88.
(**3**) 1998 p.38.